



**Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith:
Defnyddio'r Gymraeg**

**DARLLEN A LLENWI BYLCHAU
READING AND GAP-FILLING**

Arholiad 14 Mehefin 2023 (Dydd)
14 June 2023 Examination (Day)

Rhif y Cwestiwn	Arholwr yn unig
1	
2	
3	
Cyfanswm:	

Hyd y prawf: 30 munud
Duration of test: 30 minutes

Mae'n bosibl ennill hyd at 60 marc yn y prawf hwn.
Up to 60 marks may be awarded in this test.

Enw a rhif y ganolfan:
Name and number of centre: _____

Enw'r ymgeisydd:
Candidate's name: _____

Rhif arholiad yr ymgeisydd:
Candidate's examination number: _____

Lle bydd angen geiriau, atebwch y cwestiynau yn Gymraeg.
Where words are required, answer the questions in Welsh.

Mae 3 chwestiwn yn y prawf hwn. Atebwch y tri ar y papur hwn.
There are 3 questions in this test. Answer all three on this paper.

1. **Hysbysebion (Fersiwn y De)**
Advertisements (South Wales Version)

[20]

Darllenwch yr hysbysebion yma. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn ar sail y wybodaeth yn yr hysbysebion. Does dim rhaid defnyddio brawddegau.

Read these advertisements. Then, answer the questions which follow on the basis of the information in the advertisements. You do not need to use sentences.

Cwis

yn Nhafarn y Llew Coch
Nos Wener 7 Gorffennaf.

Byddwch chi'n gallu ennill
arian mawr!

Bydd y grŵp 'Telyn Arian'
yn chwarae ar ôl y cwis.

Tocynnau: £5 cyn y noson
£7 wrth y drws
Bar Cwrw'r Castell
Arian at Eisteddfod Aberwylan.

I gael tocyn ffoniwch
Llinos ar
01223 277582.

Bore Coffi i Ddysgwyr

Neuadd Bryncastell
(drws nesa i'r capel)

bob dydd Mercher
rhwng 10am a 12pm.

Bydd te, coffi a bara brith
ar gael am ddim.

Dewch i gael sgwrs a phaned!
Croeso i ddysgwyr ar bob lefel.

Taith i Gaerdydd

Dewch gyda ni ar y bws i weld
tîm pêl-droed merched Llanaber
yn chwarae yn stadiwm
dinas Caerdydd.

Dydd Sadwrn 8 Gorffennaf.

Bydd yr actor o Aberystwyth,
Gareth Williams, yn rhoi'r cwpan
i'r tîm gorau.

Byddwn ni'n cael swper ar bwys y
stadiwm cyn teithio'n ôl.
Pris y daith: dim ond £12, neu £20
os dych chi eisiau tocyn i'r gêm.

1. **Cwestiynau (Fersiwn y De)**
Questions (South Wales Version)

[20]

1. Ble bydd y cwis? _____
2. Beth dych chi'n gallu'i ennill yn y cwis? _____
3. Pwy fydd yn perfformio ar noson y cwis? _____
4. Faint yw cost y cwis, os dych chi'n talu ar y noson? _____
5. Ble mae Neuadd Bryncastell? _____
6. Faint o'r gloch mae'r bore coffi'n gorffen? _____
7. Beth dych chi'n ei gael i'w fwyta yn y bore coffi? _____
8. Ble yng Nghaerdydd bydd y tîm merched yn chwarae dydd Sadwrn? _____
9. Beth yw gwaith Gareth Williams? _____
10. Ble byddwch chi'n cael swper ar y daith o Gaerdydd? _____

1. **Hysbysebion (Fersiwn y Gogledd)**
Advertisements (North Wales Version)

[20]

Darllenwch yr hysbysebion yma. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn ar sail y wybodaeth yn yr hysbysebion. Does dim rhaid defnyddio brawddegau.

Read these advertisements. Then, answer the questions which follow on the basis of the information in the advertisements. You do not need to use sentences.

Cwis

yn Nhafarn y Llew Coch
Nos Wener 7 Gorffennaf.

Mi fyddwch chi'n medru ennill
pres mawr!

Mi fydd y grŵp 'Telyn Arian'
yn chwarae ar ôl y cwis.

Tocynnau: £5 cyn y noson
£7 wrth y drws
Bar Cwrw'r Castell
Pres at Eisteddfod Aberwylan.

I gael tocyn ffoniwch
Llinos ar
01223 277582.

Bore Coffi i Ddysgwyr

Neuadd Bryncastell
(drws nesa i'r capel)

bob dydd Mercher
rhwng 10 a 12pm.

Mi fydd te, coffi a bara brith
ar gael am ddim.

Dewch i gael sgwrs a phaned!
Croeso i ddysgwyr ar bob lefel.

Taith i Gaerdydd

Dewch efo ni ar y bws i weld
tîm pêl-droed merched Llanaber
yn chwarae yn stadiwm
dinas Caerdydd.

Dydd Sadwrn 8 Gorffennaf.

Mi fydd yr actor o Aberystwyth,
Gareth Williams, yn rhoi'r cwpan
i'r tîm gorau.

Mi fyddwn ni'n cael swper wrth y
stadiwm cyn teithio'n ôl.
Pris y daith: dim ond £12, neu £20
os dach chi isio tocyn i'r gêm.

1. **Cwestiynau (Fersiwn y Gogledd)** [20]
Questions (North Wales Version)

1. Lle fydd y cwis? _____
2. Be' dach chi'n medru'i ennill yn y cwis? _____
3. Pwy fydd yn perfformio ar noson y cwis? _____
4. Faint ydy cost y cwis, os dach chi'n talu ar y noson? _____
5. Lle mae Neuadd Bryncastell? _____
6. Faint o'r gloch mae'r bore coffi'n gorffen? _____
7. Be' dach chi'n ei gael i'w fwyta yn y bore coffi? _____
8. Lle yng Nghaerdydd fydd y tîm merched yn chwarae dydd Sadwrn? _____
9. Be' ydy gwaith Gareth Williams? _____
10. Lle fyddwch chi'n cael swper ar y daith o Gaerdydd? _____

2. **Deialog (Fersiwn y De)**
Dialogue (South Wales Version)

[20]

Darllenwch y ddeialog, ac yna llenwch y gridiau ar sail y wybodaeth a roddir. Dewiswch naill ai fersiwn y De neu fersiwn y Gogledd (tud. 8-9).
Read the dialogue, then complete the grids based on the information given. Choose either the South Wales or North Wales version (pages 8-9).

Mae Sharon a Meirion yn siarad ar y ffordd i'r ysgol.

- Sharon: Helo Meirion. Wyt ti ar y ffordd i'r ysgol?
- Meirion: Ydw. Dw i'n mynd â'r plant i'r clwb dawnsio heno. Mae Mari, Sioned a Tania'n mwynhau dawnsio ar nos Fercher.
- Sharon: Rhaid i fi fynd â'r plant i ymarfer band heno. Mae'r ddau'n hoffi chwarae yn y band, felly rhaid i fi fod yn dacs!
- Meirion: Aethoch chi i'r Eisteddfod ddydd Sadwrn diwetha?
- Sharon: Naddo. Ro'n ni wedi mynd i'r Gogledd am ddwy noson. Sut roedd hi?
- Meirion: Dw i ddim yn gwybod... aethon ni ddim 'chwaith! Dw i'n teimlo'n ofnadwy am beidio mynd! Aethon ni i weld cyngerdd yn y stadiwm.
- Sharon: Mae'n anodd gwneud popeth. Wyt ti'n mynd i'r ffair ysgol wythnos nesa?
- Meirion: Ydw. Mae'r teulu i gyd yn mynd i wneud cacennau a'u gwerthu nhw yn y ffair. Mae angen codi llawer o arian.
- Sharon: Da iawn! Rhaid i ni wneud rhywbeth i helpu codi arian hefyd. Dw i'n meddwl byddwn ni'n rhedeg yn hanner marathon y dre y mis nesa... wel, cerdded, nid rhedeg!
- Meirion: Da iawn chi. Rhaid i fi fynd, bydd y plant yn barod. Byddan nhw eisiau pizza ar y ffordd adre – maen nhw'n cael mynd i'r caffi bob nos Fercher, ar ôl bod yn y clwb dawnsio.
- Sharon: Syniad da. Byddwn ni'n hwyr heno, felly bydd rhaid iddyn nhw gael pasta unwaith eto! Gwela i di eto, Meirion.

Gridiau ar gyfer Fersiwn y De

Grids for South Wales Version

Does dim rhaid i chi ysgrifennu brawddegau, ond rhaid llenwi'r ddau grid ar y dudalen hon.

You do not need to write sentences, but you must fill in both grids on this page.

Pwy?	Faint o blant sy gyda nhw?	Ble ro'n nhw nos Sadwrn?	Sut maen nhw'n mynd i godi arian i'r ysgol?
Sharon	1.	2.	3.
Meirion	4.	5.	6.

Pwy?	Beth maen nhw'n hoffi'i wneud yn eu hamser sbâr?	Beth maen nhw'n mynd i'w fwyta heno?
plant Sharon	7.	8.
plant Meirion	9.	10.

2. **Deialog (Fersiwn y Gogledd)**
Dialogue (North Wales Version)

[20]

Darllenwch y ddeialog, ac yna llenwch y gridiau ar sail y wybodaeth a roddir. Dewiswch naill ai fersiwn y De (tud. 6-7) neu fersiwn y Gogledd. *Read the dialogue, then complete the grids based on the information given. Choose either the South Wales (pages 6-7) or North Wales version.*

Mae Sharon a Meirion yn siarad ar y ffordd i'r ysgol.

- Sharon: Helo Meirion. Wyt ti ar y ffordd i'r ysgol?
- Meirion: Ydw. Dw i'n mynd â'r plant i'r clwb dawnsio heno. Mae Mari, Sioned a Tania'n mwynhau dawnsio ar nos Fercher.
- Sharon: Rhaid i mi fynd â'r plant i ymarfer band heno. Mae'r ddau'n hoffi chwarae yn y band, felly rhaid i mi fod yn dacs!
- Meirion: Wnaethoch chi fynd i'r Eisteddfod ddydd Sadwrn diwetha?
- Sharon: Naddo. Ro'n ni wedi mynd i'r Gogledd am ddwy noson. Sut roedd hi?
- Meirion: Dw i ddim yn gwybod... wnaethon ni ddim mynd 'chwaith! Dw i'n teimlo'n ofnadwy am beidio â mynd! Mi wnaethon ni fynd i weld cyngerdd yn y stadiwm.
- Sharon: Mae'n anodd gwneud popeth. Wyt ti'n mynd i'r ffair ysgol wythnos nesa?
- Meirion: Ydw. Mae'r teulu i gyd yn mynd i wneud cacennau a'u gwerthu nhw yn y ffair. Mae angen codi llawer o bres.
- Sharon: Da iawn! Rhaid i ni wneud rhywbeth i helpu codi pres hefyd. Dw i'n meddwl byddwn ni'n rhedeg yn hanner marathon y dre y mis nesa... wel, cerdded, nid rhedeg!
- Meirion: Da iawn chi. Rhaid i mi fynd, mi fydd y plant yn barod. Mi fyddan nhw isio pizza ar y ffordd adre – maen nhw'n cael mynd i'r caffi bob nos Fercher, ar ôl bod yn y clwb dawnsio.
- Sharon: Syniad da. Mi fyddwn ni'n hwyr heno, felly mi fydd rhaid iddyn nhw gael pasta unwaith eto! Mi wela i di eto, Meirion.

Gridiau ar gyfer Fersiwn y Gogledd

Grids for North Wales Version

Does dim rhaid i chi ysgrifennu brawddegau, ond rhaid llenwi'r ddau grid ar y dudalen hon.

You do not need to write sentences, but you must fill in both grids on this page.

Pwy?	Faint o blant sy gynnyn nhw?	Lle roedden nhw nos Sadwrn?	Sut maen nhw'n mynd i godi pres i'r ysgol?
Sharon	1.	2.	3.
Meirion	4.	5.	6.

Pwy?	Be' maen nhw'n hoffi'i wneud yn eu hamser sbâr?	Be' maen nhw'n mynd i'w fwyta heno?
plant Sharon	7.	8.
plant Meirion	9.	10.

trosodd / over

3. **Llenwi bylchau**
Gap-filling

[20]

Llenwch y bylchau yn y brawddegau yma, gan ddefnyddio'r sbardun mewn cromfachau neu'r llun, fel y bo'n briodol:

Fill the gaps in these sentences, using the prompts in brackets or the pictures, as appropriate:

1. Diolch yn _____ i ti am dy help!

2. _____ i ofyn cwestiwn i chi? Cewch!

3. Mae hi'n _____ â'r ci am dro bob nos.



4. _____ mae Tom yn byw? Yn y dre.

5. Heno, dw i'n mynd i _____. **Cwm Bach**

6. Mae'r tocynnau'n costio pedair _____ (£4) yr un.

7. Ydy hi'n bwrw glaw? _____ (✓)

8. _____ (gwneud) chi'r gwaith cartre ddoe?

9. Dw i'n mynd i gael _____ i swper.



10. _____ hi ddim yn oer ar hyn o bryd.